

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

POLISI GONESTRWYDD ACADEMAIDD

CYNNWYS

Goruchwyliaeth sefydliadol	2
Cyflwyniad	3
Diffiniad o Gamymddygiad Academaidd mewn Ymchwil.....	3
Sut i Gynnal Uniondeb Academaidd ac Osgoi Camymddygiad Academaidd	4

Goruchwyliaeth Sefydliadol

Cymeradwywyd y Polisi Gonestrwydd Academaidd gan Senedd y Brifysgol. Bydd y rheoliadau yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi'r prosesau mewnol gweithredol yn effeithlon ac effeithiol, yn ogystal â bodloni'r gofynion yn [Fframwaith Arfer Da yr OIA](#), ac yng [Nghôd Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch wedi'i adolygu](#). Mae'r disgwyliadau a'r arferion a nodwyd yn y cyngor a'r arweiniad ategol ar [Pryderon, Cwynion ac Apeliadau](#), a [Galluogi Cyflawniad Myfyrwyr](#) yn arbennig o berthnasol:

Disgwyliadau o ran ansawdd
Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr.
O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono.
Ymarferion craidd o ran ansawdd
Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel.
Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn rhoi profiad academaidd o safon uchel.
Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Mae'r darparwr yn dylunio a/neu'n cyflwyno cyrsiau o safon uchel.
Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd.
Mae gan y darparwr gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau sy'n deg ac yn dryloyw, ac sydd yn hygyrch i bob myfyriwr.
Arferion cyffredin ar gyfer ansawdd
Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau.

O 1 Awst 2019 ymlaen, mae'r Polisi Gonestrwydd Academaidd yn cynnig fframwaith ar gyfer rheoli camymddwyn academaidd. Diben y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig yw gwneud yn siŵr bod Prifysgol Caerdydd yn gallu cyflawni ei dyletswyddau yn effeithiol i'w holl fyfyrwyr yn deg ac yn effeithiol.

1. **Cyflwyniad**

- 1.1 Mae gan y Brifysgol werthoedd craidd yr ydym yn disgwyl y bydd myfyrwyr yn cydymffurfio â hwy yn eu gwaith academaidd; Mae'r rhain yn cynnwys uniondeb, gonestrwydd, bod yn agored, trylwyrdd, atebolrwydd, gofal a pharch. Mae'n hanfodol i weithrediad ein cymuned academaidd bod myfyrwyr yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gydnaws â'r gwerthoedd craidd hyn ym mhob agwedd ar astudio ac ymchwil. Disgwylir i fyfyrwyr gynnal safonau uchel o ran ymarfer academaidd ac i beidio â chamymddwyn yn academaidd.
- 1.2 Bydd y Weithdrefn Camymddwyn Academaidd berthnasol yn cael ei gweithredu yn achos unrhyw fyfyrwr lle mynegir pryderon nad ydynt wedi dilyn y gweithdrefnau neu'r safonau academaidd priodol, ac yr honnir eu bod wedi camymddwyn yn academaidd.
- 1.3 Mae Pennaeth yr Ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod pob myfyrwr yn cael eu cynghori ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gyfrif fel ymarfer academaidd gwael, ac o'r canlyniadau os gwelir fod myfyrwr wedi ceisio cael mantais annheg mewn unrhyw asesiad neu wrth wneud gwaith academaidd.

2. **Diffiniad o Gamymddygiad Academaidd**

- 2.1 Os bydd eich gweithred(oedd) neu ddiffyg gweithred(oedd) yn arwain at bryderon o gamymddygiad academaidd, ymchwilir i'r mater fel achos i dorri uniondeb academaidd. Gall camymddygiad academaidd ddigwydd boed eich gweithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd wedi'u bwriadu i gael mantais annheg neu beidio. Mae camymddygiad academaidd yn cynnwys, ond heb eu gyfyngu i'r canlynol:

- .1 Llên-ladrad: defnyddio geiriau, syniadau, eiddo deallusol, neu waith rhywun arall heb gydnabyddiaeth briodol drwy ddefnyddio confensiynau cyfeirio cywir, neu ganiatâd angenrheidiol. Gall geiriau neu syniadau gynnwys: testun (gan gynnwys aralleirio), diagramau, fformwlâu, meddalwedd.
- .2 Hunan lôn-ladrad: pan fydd gwaith yn cael ei atgynhyrchu neu ailgyflwyno ar gyfer asesiad pan fydd wedi bod yn rhan o asesiad arall eisoes. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar eich rhaglen astudio gyfredol neu raglen astudio flaenrol yn y Brifysgol neu mewn sefydliad addysgol arall.
- .3 Gwasanaeth ysgrifennu allanol: defnyddio gwasanaeth ysgrifennu allanol, er enghraifft, banciau traethodau, melinau traethodau, rhithysgrifenwyr, neu unrhyw wasanaethau ysgrifennu traethodau/traethodau hir allanol, yn lle neu'n ychwanegol at eich ysgrifennu eich hun.

- .4 Cyd-dwylo: cyflwyno gwaith fel eich gwaith eich hun pan fydd wedi'i gynhyrchu gan, neu gyda, rywun arall, neu ganiatáu i waith gael ei gyflwyno yn enw rhywun arall.
 - .5 Camymddygiad mewn arholiad: unrhyw weithred mewn lleoliad arholiad sy'n mynd yn groes i reolau'r arholiad a/neu a all arwain at anfantais annheg dros fyfyrwyr eraill. Gall hyn gynnwys dod â deunyddiau neu eitemau heb eu hawdurdodi i mewn i'r arholiad, copïo ymatebion myfyriwr arall, cyfathrebu ag unrhyw unigolyn heblaw goruchwyliwr yr arholiad mewn arholiad drwy siarad, negeseuon testun, ffôn, ystumiau neu ar unrhyw blatfform arall, cymryd lle myfyriwr arall, neu ganiatáu i rywun arall gymryd eich lle chi.
 - .6 Anonestrwydd: pan fydd gwybodaeth neu weithredoedd nad ydynt yn wir neu ddilys yn cael eu cyflwyno neu lle bydd twyll bwriadol. Gall hyn gynnwys creu neu ffugio data, camddefnyddio a/neu ddedol data neu ddelweddau ac ati'n amhriodol, cam-gynrychioli neu gynrychioli syniadau neu waith pobl eraill yn annheg.
 - .7 Anonestrwydd: pan mae gwybodaeth neu weithredoedd anwir neu dwyllodrus yn cael eu cyflwyno, neu dwyll bwriadol.
 - .8 Unrhyw ymdrech i geisio cael mantais annheg mewn asesiad.
- 2.2 Nid yw'r polisi hwn, na'r gweithdrefnau cysylltiedig, yn gymwys yn achos camymddwyn academaidd mewn perthynas â'r amgylchedd ymchwil, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, fethiant i gydymffurfio â gweithdrefnau priodol, deddfwriaeth berthnasol neu ofynion y Brifysgol a/neu gyllidwyr; symud, neu ddifrod anfwriadol, heb awdurdod i eiddo sy'n gysylltiedig ag ymchwil; neu gamreoli neu drefniadau annigonol i gadw data a/neu ddeunyddiau sylfaenol. Ymdrinnir â chamymddwyn o'r fath o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrrwyr neu, os yw'r unigolyn dan sylw'n ymgeisydd staff, y Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil Academaidd.

3. **Diffiniad o Gamymddygiad Academaidd mewn Ymchwil**

- 3.1 Disgwylir i bob myfyriwr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil gadw at y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol, cywirdeb a gonestrwydd wrth gynnal a chyflwyno eu hymchwil. Cyfrifoldeb myfyrrwyr sy'n gwneud ymchwil yw bod yn ymwybodol o'u hymrwymiaadau a disgwyliadau'r Brifysgol yn hyn o beth, fel yr amlinellir yn y Côd Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu. Gall torri'r Côd Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu fod yn gyfystyr â chamymddwyn academaidd. Dylai myfyrrwyr hefyd gydymffurfio â disgwyliadau a gofynion cyrff ariannu a rheoleiddio, noddwyr a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys gofynion moeseg ymchwil.
- 3.2 Yn ogystal â'r enghreifftiau perthnasol o gamymddwyn academaidd a restrir uchod (llên-ladrad, cydgynllwynio), mae camymddygiad ymchwil yn cwmpasu'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Dweud celwydd - yn cynnwys creu data ffug neu agweddau ffug eraill ar ymchwil, gan gynnwys dogfennau a chaniatâd pobl sy'n cymryd rhan.
- Ffugio - yn cynnwys trin a/neu ddewis data, delweddau, prosesau ymchwil, deunyddiau a/neu ganiatâd yn amhriodol. Mae hyn yn cynnwys newid neu hepgor data neu ganlyniadau fel nad yw'r ymchwil yn cael ei gynrychioli'n gywir yn y cofnod ymchwil.
- Camliwio:
 - **Data** - gan gynnwys atal canlyniadau/data perthnasol neu gyflwyno dehongliad diffygiol o ddata yn fwriadol, yn fyrbwyll neu'n esgeulus
 - **Cyfraniad** - gan gynnwys honiadau amhriodol am awduraeth/priodoliad gwaith a gwrthod cydnabod awduraeth/priodoliad pobl sydd wedi gwneud cyfraniad priodol
 - **Buddiannau** - gan gynnwys methiant i ddatgan gwrthdaro buddiannau, cymwysterau, profiad a/neu fanylion hanes cyhoeddiadau, gan gynnwys cyhoeddiad dyblyg heb ei ddatgelu
- Camreoli neu ddim yn cadw data a/neu ddeunyddiau sylfaenol yn ddigonol - diffyg cydymffurfio â gofynion y Brifysgol a/neu gyllidwyr o ran rheoli neu gadw data a/neu ddeunydd sylfaenol.
- Methiant i fodloni gofynion cyfreithiol, moesegol neu broffesiynol, gan gynnwys:
 - peidio ag ufuddhau i ofynion cyfreithiol, moesegol a gofynion eraill ar gyfer cyfranogwyr dynol ar gyfer ymchwil, anifeiliaid, neu organau neu feinwe dynol a ddefnyddir mewn ymchwil, neu ar gyfer diogelu'r amgylchedd (gan gynnwys methiant i gael adolygiad moesegol priodol/cychwyn ymchwil dynol heb gael barn foesegol ffafriol yn gyntaf (lle bo angen barn o'r fath))
 - torri dyletswydd gofal ar gyfer pobl sy'n ymwneud ag ymchwil boed yn fwriadol, yn fyrbwyll neu'n esgeulus, gan gynnwys methu â chael caniatâd gwybodus priodol (lle bo angen)
 - camddefnyddio data personol, methiant i sicrhau eu bod yn ymdrin yn briodol â gwybodaeth freintiedig neu breifat a gasglwyd am unigolion yn ystod yr ymchwil

3.3 Ymdrinnir ag unrhyw gamymddwyn yn ystod gweithgaredd ymchwil nad yw'r Weithdrefn Camymddygiad Academiaidd berthnasol yn ymdrin ag ef o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr neu, os yw'r unigolyn dan sylw'n ymgeisydd staff, y Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn mewn Ymchwil Academiaidd.

- 3.4 Nid yw gwallau gonest a gwahaniaethau mewn dehongliadau, er enghraifft, yn gyfystyr â chamymddygiad ymchwil. Yn yr un modd, nid yw'n cynnwys yr hyn nad yw'n fwy nag ymchwil academiaidd wael.

4. Sut i Gynnal Uniondeb Academiaidd ac Osgoi Camymddygiad Academiaidd

- 4.1 Mae gan y Brifysgol ganllawiau ar y fewnwyd a Dysgu Canolog ynglŷn ag ymddygiad academiaidd priodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn ag ystyr camymddygiad academiaidd, dylech siarad â'ch tiwtor personol, eich arweinydd modiwl, neu'ch goruchwylydd.

- 4.2 Mae Cynghorir myfyrwyr i fod yn ofalus ag arferion gweithio academiaidd:

- .1 Gofyn am help gan eraill neu helpu eraill: byddwch yn cael eich annog i drafod a rhannu syniadau a gwybodaeth yn rhan o'ch astudiaethau. Fodd bynnag, bydd myfyrwyr sy'n helpu eraill i gamymddwyn yn academiaidd, boed am daliad neu beidio (e.e. rhoi cyfle i fyfyrwr arall i gopïo rhan neu'r cyfan o ddarn o waith, rhoi copiâu o asesiadau, neu ddarparu gwaith pwrpasol ar gyfer aseiniadau i fyfyrwr arall) yn agored i'r un cosbau â'r sawl sy'n cyflwyno'r asesiad. A chithau'n fyfyrwr, rydych yn gyfrifol yn bersonol am sicrhau eich bod yn gwarchod eich gwaith eich hun, yn ei gyflwyno eich hun ac am beidio â gadael i fyfyrwyr eraill ddefnyddio eich gwaith.
- .2 Cyfeiriadau: byddwch yn cael gwybodaeth ar arferion asesu academiaidd da yn llawlyfrau eich rhaglen a byddwch yn cael gwybod ble i gael gwybodaeth am sgiliau astudio a sut i gyfeirio'n gywir. Gall myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ofyn am gyngor ar gyfeirio priodol gan eu goruchwylydd.
- .3 Defnyddio cynorthwywyr anfeddygol: efallai y bydd gennych unigolyn sydd wedi'i ddynodi i'ch helpu â'ch astudiaethau fel addasiad rhesymol drwy'r Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia. Byddant yn cael eu hyfforddi i'ch helpu ac i ddeall terfynau'r help y gallant ei roi. Dylech drafod sut y byddwch yn gweithio â'ch gilydd ar ddechrau eich perthynas waith, ond ni fydd y cynorthwydd yn eich helpu â chynnwys academiaidd eich gwaith.
- .4 Goruchwyliaeth: os ydych chi'n astudio ar raglen ymchwil, bydd eich goruchwylydd (neu oruchwylwyr) yn arbenigwyr yn eu maes ac yn gallu rhoi arweiniad i chi ar ddatblygiad eich ymchwil gan gynnwys yr hyn sy'n cael eu gweld fel arferion ymchwil da. Fel myfyrwr bydd disgwyl i chi wneud eich gwaith academiaidd yn onest a chydag uniondeb.